



NEWYDDLEN YSGOL CORN HIR

*Tymor yr
Hydref
2012*

DATHLU'R NADOLIG

Bu côr yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth carolau yng Nghapel Pisgah, Rhostrehwfa. Braff oedd gweld aelodau newydd yn mwynhau'r profiad, edrychwn ymlaen i weld mwy arnynt yn y flwyddyn newydd. Gwahoddwyd Blwyddyn 3 a 4 i wasanaeth y Christingle yn Eglwys Cyngar Sant, Llangefni yn ôl yr arfer, unwaith yn rhagor roeddent wedi mwynhau y profiad.

Uchelgais y tymor oedd Pantomein Peter Pan yn Venue Cymru, Llandudno i blant Blwyddyn 2 i 6. Llanwyd y bysyt â phlant cynhyrfus ac yn ôl yr arfer roedd pawb, gan gynnwys y staff wedi cael amser iw gofio.

Am Llanberis i chwilio am Sion Corn aeth y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 ac wedi teithio ar y tren bach ar hyd glannau Llyn Peris daethant o hyd iddo yn ei 'Groto'. Roeddent wrth eu boddau yn cael sgwrs a derbyn anrheg bach ganddo i ddisgwyl am y Nadolig.

ENWEBU ELUSENNAU

Cynhaliwyd dwy sioe Nadolig hynod o lwyddiannus eto eleni, y babanod yn perfformio 'Abracadabra' a'r Adran Iau yn cyflwyno hanes 'Y Nadolig Cyntaf'. Roedd ffrwyth llafur y plant a'r staff yn amlwg ymhob perfformiad – bu'n gyfle gwych i arddangos a dathlu amryw dalentau y plant. Y Cyngor Ysgol oedd yn gyfrifol eleni am ddewis dwy elusen i gyfrannu elw'r perfformiadau iddynt. Y ddwy elusen a fydd yn elwa eleni fydd, Prosiect Omwabini yn Kenya, sef prosiect y mae

Mr Alun Pritchard yn gweithio arno yn gwella cyfleusterau byw i bobl yn y rhan yma o'r byd.

Bydd Mr Pritchard yn gadael am Kenya ddechrau Ionawr. Bydd pawb yn disgwyl yn eiddgar i glywed hanes y gwaith pan fydd yn dychwelyd i Gymru. Yn dilyn cyflwyniad mewn Gwasanaeth Boreol gan y Parch Hywel Meredydd i waith Tear Fund, sydd eto yn gweithio i wella amgylchiadau byw pobl yn Nepal, penderfynwyd rhoi cyfran o'r arian iddynt hwy.

'AR DY FEIC'

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar gwblhau eu cwrs Cymhwyster Beicio. Derbyniodd y criw gyfres o wersi ar y ffyrdd o amgylch yr ysgol. Cyflwynwyd tystysgrif iddynt i ddathlu eu llwyddiant.

Mae aelodau y Grwp 'Ar dy Feic' yn brysur yn ceisio hybu disgyblion i feicio/cerdded neu sgwtera i'r ysgol er mwyn lleihau y traffig o amgylch yr ysgol ar gychwyn a diwedd y dydd.

Er y gwynt a'r glaw roedd nifer o'r plant wedi addurno beic/sgwter, cot/bag gydag addurniadau Nadolig o bob math ar gyfer y diwrnod gweithgaredd a drefnwyd gan y criw 'Ar dy Feic'. Cyflwynwyd gwobrau o fagiâu yn llawn nwyddau beicio i un disgybl o bob dosbarth.

BOCSYS NADOLIG I'R ANGHENUS

Yn dilyn cyflwyniad gan Mair Parry am ei gwaith yn cydlynu trefniadau 'Operation Christmas Child' aeth y plant ati yn ddygn i gasglu a llenwi bocsys 'sgidia gyda pob math o fan anrhegion. Anfonwyd tros gant o focsys i Ysgol Gyfun Llangefni cyn iddynt gychwyn ar eu siwrnai hir dramor – rwy'n siwr eu bod wedi goleuo wynebau y rhai llai breintiedig tros Ŵyl y Nadolig.



Bechgyn Blwyddyn 2 gyda'r bocsys OCC

ATHLETAU

Llongyfarchiadau i'r tîm athletau o Flynyddoedd 5 a 6 a fu'n cystadlu ym Mhlas Arthur yn erbyn timau ysgolion y Dalgylch. Byddant yn awr yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth sirol – pob lwc iddynt!

YMWELIADAU

Croesawyd Mari Gwilym, yr awdures a'r actores i'r ysgol i ddarllen ac adrodd storiâu i blant y babanod. Treuliodd hefyd brynhawn yng nghwmni disgyblion Blwyddyn 4 yn datblygu sgiliau creu storiâu – edrychwn ymlaen i ddarllen y cynhyrchion terfynnol yn y flwyddyn newydd.

Trefnwyd gweithdy Gwyddoniaeth yn ymwneud â'r gofod i flynyddoedd 3 a 5 gan Techniquet, cafwyd gweithdy ymarferol, hwyliog a diddorol gyda'r plant wedi elwa o'r cyfle.



Mr Pritchard yn derbyn siec o £200 gan y Cyngor Ysgol.

Fel rhan o astudiaethau am y Chwarel bu Blwyddyn 6 yn ymweld â Llanberis i ddysgu am fywyd a gwaith y chwarelwyr llechi ac yna i Gastell Penrhyn i gael profiad o fywyd yn ystod y Cyfnod Fictoriaidd ac arferion Nadoligaidd y cyfnod.

Dymuna'r Cyngor Ysgol ddiolch i bawb a gefnogodd ymgyrch 'WISH' y Daily Post – casglwyd tros 42,000 o docynnau.